

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Gwybodaeth ar leoliadau ar gyfer ymholiadau ffilmio

Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth gychwynnol a allai fod yn ddefnyddiol i'r rheiny sydd â diddordeb mewn ffilmio ar dir ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Perchnogaeth y Parc Cenedlaethol

Nid yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae'r Awdurdod yn berchen ar barseli o dir o fewn y Parc, ynghyd â llawer o berchnogion tir eraill. Dylid cael caniatâd gan y perchennog tir perthnasol cyn ffilmio.

Os ydych chi'n dymuno ffilmio ar dir Awdurdod y Parc Cenedlaethol, efallai y codir tâl, ac efallai y bydd gofyn i chi lofnodi cytundeb trwydded.

Newydd i Arfordir Penfro?

Os ydych chi'n chwilio am fath penodol o leoliad, ond 'dydych chi ddim yn adnabod yr ardal ac rydych chi angen awgrymiadau lleol, fe allech chi ddechrau trwy glicio ar www.pembrokeshirecoast.org.uk/60views er mwyn pori trwy rai o'r golygfeydd mwyaf gwefreiddiol yn y Parc.

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch, fe fyddwn yn hapus i'ch helpu. Mae croeso i chi gysylltu â Thîm Cyfathrebu Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 01646 624823 neu e-bostiwrch janetoto@pembrokeshirecoast.org.uk.

Lleoliadau allweddol ble mae'r tir yn eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

[Sylwer: Bwriedir yr wybodaeth hon fel canllaw – bydd angen i chi holi i weld os yw'r union leoliad yr ydych yn ei ystyried dan ein perchnogaeth ni].

Castell a Melin Heli Cairew (www.carewcastle.com)

Pentref Oes Haearn Castell Henllys (www.castellhenllys.com)

Oriel a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc (www.orielyparc.co.uk)

Parseli o dir ar Lwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Parseli o dir ar Fynyddoedd y Preseli

Sawl maes parcio (chwiliwch am 'meysydd parcio' ar www.arfordirpenfro.org.uk)

Blaendraethau ar Arfordir Penfro

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn prydlesu bron y cyfan o'r blaendraeth ar hyd Arfordir Penfro gan Ystâd y Goron (y perchnogion). Felly, os ydych chi am ffilmio ar y blaendraeth, cysylltwch ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol i drafod caniatâd.

Mae yna sawl lleoliad allweddol nad yw'r Awdurdod yn eu prydlesu, sef Llanrhath a thraethau'r Gogledd, y De a'r Castell yn Ninbych-y-pysgod, ac mae'r rhain yn cael eu rheoli gan Gyngor Sir Penfro. Mae'r blaendraeth ar hyd rhannau o Faes y Fyddin yng Nghastellmartin yn eithriad arall, oherwydd mae ar dir sy'n eiddo i'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Mae Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn 186 milltir o hyd, ac yn ymlwybro o Lanrhath yn y de i Landudoch yn y gogledd.

Mae'n pasio ar draws traethau a thrwy drefi a phentrefi. Dim ond pocedi bach o dir ar hyd y Llwybr sy'n eiddo i Awdurdod y Parc. Mae adrannau gwahanol o'r Llwybr yn eiddo i fudiadau ac unigolion amrywiol, felly sylwer **nad yw'n bosib cael caniatâd cyffredinol** i ffilmio ar hyd Llwybr yr Arfordir yn ei gyfanrwydd.

Os hoffech chi ffilmio mewn lleoliad penodol ar Llwybr yr Arfordir, ac nid ydych yn siŵr beth yw'r sefyllfa o ran perchnogaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Cysylltiadau defnyddiol eraill ar gyfer perchnogion tir (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pawb ac fe'i bwriedir fel man cychwyn i ymchwilwyr yn unig):

- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – e.e. ar gyfer Ystâd Ystagbwl (Harvey Edgington 07956 312 238)
- Cyngor Sir Penfro – e.e. ar gyfer Traeth y De Dinbych-y-pysgod (Len Mullins 01437 775387)
- Cyfoeth Naturiol Cymru – e.e. ar gyfer Gwarchodfa Natur Genedlaethol Tycanol (pressoffice@naturalresourceswales.gov.uk)
- RSPB – e.e. ar gyfer Ynys Dewi (delyth.willis@rspb.org.uk)
- Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru – e.e. ar gyfer Ynys Sgomer (01239 621600)
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn – meysydd tanio Castellmartin, Penalun a Maenorbŷr (Margaret Tweedy, Gwasanaethau Cymorth Landmarc, 01874 635569 WalesAndWestTPI@landmarc.mod.uk)

Llefarwyr ar ran y Parc Cenedlaethol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn hapus i ddarparu staff i wneud cyfweiliadau ar lawer o destunau o fewn cylch gwaith y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys:

- **Gwarchod bywyd gwyllt a natur**
- **Hamdden**
- **Cynllunio (rheoli datblygiad)**
- **Diwylliant a threftadaeth**
- **Archeoleg**
- **Cefnogi busnesau a thwristiaeth**
- **Rhaglen addysg awyr agored ac estyn allan**
- **Manteision iechyd a lles bod allan yn yr awyr agored**
- **Cynhwysiant cymdeithasol**

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth; cofiwch ofyn os ydych chi'n credu y gallwn ni helpu.

Y Tîm Cyfathrebu

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
SA72 6DY

01646 624823